**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LEGISLATIVE COMPETENCE ORDERS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig.*

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT

# 2009 Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2009

*Wedi'i wneud - - - - [ ]*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1*

Yn Llys Palas Buckingham, y **** dydd o **** 2009

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan ddau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2009 a daw i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir

(**1**) 2006 p.32.

**Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**

**2.—** (1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(2) Ym maes 10 (priffyrdd a thrafnidiaeth), ar ôl mater 10.1 mewnosoder—

"Mater 10.2

Darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau priffyrdd yng Nghymru mewn perthynas â datblygu a chynnal rhwydweithiau o briffyrdd i'w defnyddio'n bennaf gan gerddwyr neu feicwyr neu'r ddau."

*Enw*
Clerc y Cyfrin Gyngor

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Effaith y Gorchymyn yw estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru drwy Fesur o dan adran 93 o Ddeddf 2006.

Mae'r diwygiad yn cyfeirio at faes 10 (priffyrdd a thrafnidiaeth) yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae erthygl 2(2) yn mewnosod mater 10.2, sy'n estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnwys datblygu a chynnal rhwydweithiau o lwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol estynedig hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cyffredinol sy'n gymwys i arfer y cymhwysedd hwnnw yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf 2006.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn, gan na ragwelir y bydd yn effeithio ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.